| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **1 Mai, 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **DYFODOL Y FFORYMAU ARDAL** |
| **PWRPAS** | **Penderfynu ar barhad y Fforymau** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |

1. Yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 28 Chwefror, 2014, penderfynwyd symud i drefn Fforymau Ardal ar ôl y Cyngor Blynyddol ar 2 Mai, 2013. Fodd bynnag, nodwyd yn y drafodaeth bod angen i'r mater gael ei adolygu eto ymhen blwyddyn.

2. Er mwyn gwneud hynny, cynhaliwyd trafodaeth ym mhob un o'r fforymau ac anfonwyd holiadur allan i bod aelod trwy Rhaeadr yn bennaf er mwyn rhoi cyfle i'r rhai oedd ddim yn mynychu'r fforymau i fynegi barn.

3. Crynhoir ymateb y pedwar Fforwm Ardal yn y tabl isod gyda nodyn hefyd o'r lefelau presenoldeb yn y gwahanol fforymau yn ystod y flwyddyn:-

| **FFORWM** | **LEFEL PRESENOLDEB** | **BARN** |
|---|---|---|
| Gwyrfai | 50% | Y Fforwm Ardal yn werthfawr, yn cyflawni ei bwrpas ac y dylai barhau i'r dyfodol. |
| Ogwen | 55% | Y Fforwm Ardal;<br>• yn dyblygu gwybodaeth Grŵp Prosiect Bangor<br>• yn fwy o siop siarad. Angen cyfeirio yn uniongyrchol at broblemau<br>• yn rhoi gormod o bwyslais ar Fangor ac nid yr ardal |
| Meirionnydd | 69% | Y Fforwm Ardal:<br>• yn effeithiol a phwysig i'r aelodau<br>• presenoldeb yn eithaf da ym Meirionnydd<br>• bod ei gynnal mewn lleoliadau addas ac anffurfiol heblaw Siambr y Cyngor yn Nolgellau yn bwysig<br>• ei fod yn ddull i ganfod gwybodaeth sy'n fwy perthnasol i Feirionnydd ac o ganlyniad byddai aelodau yn gallu dilyn materion i fyny<br>• y dylid parhau i'w gynnal i'r dyfodol |
| Dwyfor | 70% | Y Fforwm Ardal:<br>• yn fuddiol a pwysig i'r aelodau;<br>• modd i aelodau ardal Dwyfor drafod yn agored;<br>• y dylid parhau i'w gynnal i'r dyfodol. |

4. O ran yr holiadur, ychydig sydd wedi eu derbyn yn ôl yn rhannol, mae'n debyg, gan bod y mwyafrif o'r aelodau wedi cael cyfle i fynegi barn yn y fforymau unigol ond y prif negeseuon, ar adeg llunio'r adroddiad yw:-

- Mae 79% o'r rhai a ymatebodd yn cael y fforymau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn
- Mae 74% o'r rhai a ymatebodd yn awyddus i'r Cyngor barhau i gynnal y fforymau
- Y pethau a oedd o'r budd mwyaf i'r aelodau yn y fforymau oedd "Y cyfle i dderbyn hyfforddiant sydyn heb orfod dod i Gaernarfon", "Y cyfle i holi Aelodau Cabinet a swyddogion yn anffurfiol", Y

Cyfle i godi materion o bryder lleol a'u gwyntyllu gyda'm cyd-aelodau", "Y cyfle i glywed gan bobl o tu allan i'r Cyngor a oedd yn mynychu ar wahoddiad" a'r "Cyfle i fod yn fforwm lleol i ymgysylltu ar faterion o bwys fel y Strategaeth Ail-gylchu."

5. Mae'n ymddangos felly, er nad oes unfrydedd llwyr ar y mater, bod y mwyafrif clir o blaid parhau efo'r fforymau gan eu bod yn cynnig modd i gynnal deialog agored rhwng cynghorwyr lleol ag Aelodau Cabinet, swyddogion y Cyngor a swyddogion o asiantaethau eraill ar faterion mwy lleol eu natur na fyddai, mae'n debyg, yn cael sylw mewn pwyllgor craffu.

6. Mynegwyd rhai pryderon nad oes gan y fforymau hawliau fel y cyfryw ond mae hynny, i raddau ymhlyg yn y trefniadau llywodraethu y mae'r Cyngor wedi gorfod eu mabwysiadu o dan Drefn Cabinet. Fodd bynnag, mae'r fforymau yn fodd i geisio atebolrwydd mwy lleol ac yn gyfle i aelodau ardal geisio dylanwadu ar y rhai sydd â hawliau mewn gwahanol feysydd y tu fewn a'r tu allan i'r Cyngor.

7. Mae llwyddiant amrywiol yr arbrawf ar draws yr ardaloedd wedi codi nifer o bethau y mae angen sylw iddynt:-

- Yr angen i feddwl yn fwy creadigol am eitemau y byddai gwerth eu trafod ar lefel fwy lleol
- Yr angen i fforymau unigol ddysgu o brofiadau fforymau eraill o ran materion y mae'n fuddiol eu trafod
- Yr angen i roi sylw penodol yn ardal Ogwen i'r broblem o ddyblygu posib rhwng y Fforwm Ardal a Grwp Prosiect Bangor

8. Yn amodol ar y sylwadau uchod, **rwy'n argymell i'r Cyngor** y dylid parhau gyda gweithrediad y fforymau ardal.